CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL
ar Microsoft Teams am 19.00 nos Fawrth Gorffennaf 26 2022

Presennol :- Cynghorwyr : Gwilym Jones, Selwyn Griffiths,Keith Roberts, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Aled Griffith
1.**Ymddiheuriadau :-** Cynghorwyr:- Dr Melfyn Edwards a Llinos Murphy

2. Archwilio'r cyfrifon.
Cafwyd y Fantolen yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

3 Adolygu Cynllun Datblygu 2021-22
4 Penderfynu ar wariant goleuadau Nadolig 2022
Trafodwyd materion 3 a 4 ar y cyd a chymharwyd gwariant Nadolig yn benodol. Nodwyd fod pwyllgor Caru Port wedi bod yn ariannu goleuadau Nadolig yn y gorffennol a holwyd os oes bwriad ganddynt i gyfrannu eto eleni. Cytunwyd bod angen gwario ar y goleuadau presennol i gyrraedd y safon ddisgwyliedig ac y dylid darparu sioe deilwng o oleuadau Nadolig ar gyfer trigolion Porthmadog.
Penderfynwyd :- y Clerc i holi Caru Port os oes bwriad ganddynt i gyfrannu at y gôst eleni ac i holi R.J.Electrics am bris atgyweirio'r goleuadau er mwyn dechrau trefnu ym mis Medi.

5. Awdurdodwyd y taliadau canlynol :-

1	Y Ganolfan	Cyfarfod Gorffennaf 12	£ 40.00
2	Cyngor Gwynedd	Archwiliad Mewnol 2021-22	£ 300.00
3	GDPR	Diogelu Data 2022-2023	£ 40.00

6. Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais .: C22/0627/44/AC (wedi ebostio 18.7.22)
Lleoliad : Trwyn Cae Iago, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TW
Bwriad: Rhyddhau amodau ar ganiatad apêl APP/Q618/A/18/3207092 ynghlwm â chais C18/0078/44/LL yn cynnwys amod 3 (cytuno deunyddiau) amod 4 (cynllun tirlunio) ac amod 9 (Datganiad Dull Adeiladu).
Penderfynwyd :- yn unfrydol i **wrthod** y cais am fod y Cyngor Tref wedi gwrthod y cais gwreiddiol ac nad oedd unrhyw newid wedi bod i'r cais hwnnw.

(b)Rhif Cais .: C22/0625/44/DT (wedi ebostio 19.7.22)
Lleoliad : Bwthyn Gwyn Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UU
Bwriad : Estyniad unllawr i ochr yr annedd a modurdy driphlyg newydd
Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad i'r cais i adeiladu estyniad.
Penderfynwyd :- yn unfrydol i **wrthod** y cais am garej driphlyg gan iddo fod yn rhy fawr ar gyfer maint y tŷ ; yn or-ddatblygiad ac yn amlwg wedi ei fwriadu ar gyfer gosod y tŷ i ymwelwyr.

(c) Rhif Cais .: C22/0483/44/CR (wedi ebostio 21.7.22)
Lleoliad: Capel Salem Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9EU
Bwriad I: Addasiadau mewnol i'r adeilad
Penderfynwyd :- dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 19.45 Marian Roberts 27.7.22

DRAFT

DRAFT